

CYFARFOD: Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

DYDDIAD: 8 Chwefror 2018

TEITL: Rhaglen Gyfalaf 2017/18 –
Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2017)

PWRPAS: Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet

SWYDDOG CYSWLLT: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

AELOD CABINET: Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Adolygiad Trydydd Chwarter o'r Rhaglen Gyfalaf) i'r Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 16/01/2018

Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2017/18 – Adolygiad Trydydd Chwarter (Cabinet 16/01/2018)

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 16 Ionawr 2018

Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

31 Ionawr 2018

PWNC

Eitem 10: RHAGLEN GYFALAF 2017/18 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (SEFYLLFA RHAGFYR 2017)

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad y trydydd chwarter (sefyllfa Rhagfyr 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- (£21,000) lleihad mewn defnydd o fenthycia
- £567,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £27,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £71,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau referniw
- £132,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
